Lobi Deddf Eiddo – Tai, Cynllunio a'r Iaith Gymraeg

Dyddiad:_____

Annwyl _____

Ysgrifennaf atoch er mwyn tynnu eich sylw at y cyfarfod lobio '*Deddf Eiddo – Tai, Cynllunio a'r Iaith Gymraeg'* a fydd yn cael ei gynnal yn y Cynulliad, gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg, ar ddydd Mercher, Gorffennaf 5, 2005. Dyma ddigwyddiad sydd wedi ei drefnu mewn cydweithrediad â Elin Jones, Aelod Cynulliad Ceredigion.

Bwriad y lobi yw i dynnu sylw at gynnwys y *Llawlyfr Deddf Eiddo* diwygiedig. Dyma ddogfen bolisi newydd sydd yn amlinellu galwadau Cymdeithas yr Iaith ym maes tai a chynllunio. Fel y gwyddoch mae'n siwr, mae'r rhain yn feysydd cwbwl ganolog, gan fod dyfodol yr iaith Gymraeg yn mynd law yn llaw gyda'n gallu i adeiladu cymunedau hyfyw a ffyniannus.

Bydd y cyfarfod lobio yn cael ei gynnal yn y Cynulliad Cenedlaethol am 1 y prynhawn yn Ystafell Gynhadledd A.

Fel un o'ch etholwyr, hoffwn bwysleisio pwysigrwydd y cyfarfod hwn ac anogaf chwi i wneud ymdrech i fod yn bresennol er mwyn cymryd rhan yn y drafodaeth.

Yn gywir,

Property Act Lobby: Housing Plannig and the Welsh Language

Date:_____

Dear _____,

I write in order to draw your attention to the lobby meeting *'Property Act – Housing Planning and the Welsh Language'* that will be held by Cymdeithas yr Iaith Gymraeg at the National Assembly on Wednesday July 5, 2005. This event has been organised in cooperation with Elin Jones Assembly Member for Ceredigion.

The aim of the lobby is to draw attention to the contents of the revised *Property Act Handbook*. This is a new policy document, which outlines Cymdeithas yr Iaith's policies in the field of housing and planning. I'm sure that you are aware that these are important fields, since the future of the language goes hand in hand with our ability to create viable and vibrant communities.

The lobby meeting will be held at 1pm in Conference Room A.

As one of your constituents, I would like to stress the importance of this meeting and encourage you to make an effort to be present in order to take part in the discussion.

Yours sincerely,